

Canllawiau

Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

### Pwrpas y gronfa

Pwrpas y **Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol** yw annog ymarferwyr proffesiynol yng nghelfyddydau Cymru a sefydliadau celfyddydol i ddatblygu eu harfer yn rhyngwladol, codi proffil celfyddydau Cymru dramor a chryfhau ymgysylltiad artistig rhyngwladol o fewn Cymru.

Bydd y gronfa'n cefnogi **ymweliadau tramor** a anelir at ddatblygu gwaith rhyngwladol (yng Nghymru a thramor) a chyflwyno a darparu gweithgarwch celfyddydol y tu allan i Brydain. Mae grantiau ar gael yn bennaf tuag at gostau teithio a llety, er yr ystyrir hefyd gostau sy'n gysylltiedig â darparu gweithgarwch y prosiect.

Mae'r cynllun yn gystadleuol ac uchafswm y grant yw £5,000. Bydd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn ystyried lefel y grant y gofynnir amdano a gwneir penderfyniad ar sail ar y blaenoriaethau a'r meini prawf isod, ynghyd â lefel yr arian sydd ar gael.

### Bod yn gymwys

Mae'r gronfa'n agored i artistiaid proffesiynol a sefydliadau celfyddydol yng Nghymru.

### Blaenoriaethau'r gronfa

- Artistiaid sydd am gyflwyno gwaith mewn lleoliadau, digwyddiadau, llwyfannau a chyfleoedd arddangos sydd o bwys rhyngwladol lle na all yr artist, y cwmni neu'r cyflwynydd tramor dalu'n llawn am y costau
- Prosiectau cydweithiol gydag ymarferwyr, cynhyrchwyr, cyflwynwyr neu hyrwyddwyr mewn gwledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig
- Prosiectau a anelir at archwilio partneriaethau gyda golwg ar gydweithio yn y dyfodol
- Prosiectau preswyl lle mae cyfle sylweddol i ddatblygu gwaith artist ac ennill profiad na fyddai'n bosibl ei gael yng Nghymru neu ranbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig.
- Prosiectau sy'n dangos ymrwymiad rhyngwladol i fuddsoddi mewn artistiaid o Gymru ac sy'n datblygu proffil rhyngwladol y celfyddydau o Gymru.

Ni allwn ddarparu grantiau ar gyfer:

- Digwyddiadau a gynhaliwyd eisoes neu a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y broses asesu
- Cyfleoedd astudio neu hyfforddiant proffesiynol
- Gweithgarwch hyrwyddo
- Mynychu digwyddiadau cystadleuol neu gyfranogi ohonynt
- Cyflwyno gwaith gan amaturiaid neu artistiaid nad ydynt yn broffesiynol
- Unigolion i arwain neu reoli prosiectau ymgyfranogol gyda phobl ifainc neu oedolion
- 100% o gostau'r prosiect neu'r ymweliad
- Artistiaid sydd wedi eu gwahodd i chwarae mewn gwyliau arddangos rhyngwladol neu gynadleddau sy'n gymwys i dderbyn cymorth gan ***Gronfa Arddangos Rhyngwladol Sefydliad PRS*** mewn partneriaeth â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Dyma rai enghreifftiau o weithgareddau cymwys

- Darparu prosiect cydweithiol gyda phartner tramor
- Ymchwil i ddatblygu gwaith cydweithiol newydd gyda phartneriaid tramor
- Cyfranogi mewn digwyddiad rhwydweithio rhyngwladol neu ar lwyfan rhyngwladol.
- Perfformiad mewn gŵyl, digwyddiad neu leoliad rhyngwladol o bwys
- Arddangosfa o gelfyddydau gweledol neu gymwys mewn oriel amlwg y tu allan i Brydain
- Cyfnod preswyl mewn canolfan o ragoriaeth dramor sy'n darparu cyfleoedd nad ydynt ar gael yn y Deyrnas Unedig.

### Am beth y chwiliwn?

Ystyrir y ffactorau canlynol wrth asesu ceisiadau:

Yr Ymgeisydd

- Profiad proffesiynol a hanes llwyddiannus yr ymgeisydd o gyflwyno gwaith yn rhyngwladol a'i ymroddiad i ymarfer cyfoes yng Nghymru
- Ymrwymiad proffesiynol i gyfnewid a chydweithio rhyngwladol
- Cyfle i ddatblygu'n sylweddol yrfa ryngwladol yr artist
- Brwdfrydedd i gydweithredu ag ymarferwyr a sefydliadau rhyngwladol ac ymgysylltu'n weithredol â rhwydweithiau rhyngwladol

Y Prosiect

- Darpariaeth debygol o waith cyfoes o ansawdd uchel gyda'r posibilid sylweddol i gyfrannu at ddatblygu'r gelfyddyd honno yng Nghymru
- Proffil rhyngwladol y digwyddiad neu'r lleoliad sy'n cynnal y prosiect

- Etifeddiaeth a chynaliadwyedd y prosiect heb arian drachefn o'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol
- Prawf o gydweithrediad artistig a phartneriaeth o fewn y prosiect
- Dichonoldeb ariannol y cynnig a lefel yr ariannu gan bartneriaid, yn cynnwys cyllid gan ffynonellau rhyngwladol
- Cydweddu â blaenoriaethau strategol ehangach Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Ewch i <http://wai.org.uk/about-us/strategy-2013-2018?diablo.lang=cym>

### Cyflwyno cais

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol yn rhaglen dreigl ac nid oes dyddiadau cau. Cewch benderfyniad o fewn pedair wythnos waith i gyflwyno cais wedi'i gwblhau. \* **Sylwch, fydd swyddfa CRhC ar gau dros y gwyliau Nadolig ac felly fydd amser ymateb i geisiadau yn cael ei ymestyn.**

Sicrhewch eich bod yn cwrdd â'r meini prawf canlynol:

- Nid oes ymrwymiad eisoes ar y costau cymwys ac nid oes costau ôl-weithredol yn y gyllideb
- Mae cefnogaeth sylweddol gan y partneriaid (naill ai'n ariannol neu mewn da) tuag at gostau'r prosiect, yn cynnwys ffynonellau rhyngwladol
- Mae cadarnhad wedi'i gynnwys yn y cais o gefnogaeth sylweddol gan bartner (yn ariannol neu mewn da) i'r prosiect
- Bydd yn rhaid i chi gael llythyr gwahoddiad oddi wrth eich partner tramor sy'n manylu ar natur y bartneriaeth ac a ddengys dystiolaeth o gefnogaeth
- Mae oleiaf 4 wythnos rhwng cyflwyno'r cais a dyddiad cychwyn y prosiect.

### Manylion cyswllt

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru  
Plas Bute, Caerdydd  
CF10 5AL

ebost: [info@wai.org.uk](mailto:info@wai.org.uk)

ffôn: +44 (0)29 2044 1329

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais ar-lein, bydd swyddog yn ei asesu'n gychwynnol. Bydd yn rhaid i'r cais fod yn gyflawn a bydd rhaid iddo gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Cewch eich hysbysu o ganlyniad eich cais o fewn pedair wythnos i'r dyddiad cau.

Os bydd eich cynnig yn llwyddiannus, bydd angen i chi ddychwelyd eich Adroddiad Diweddu Prosiect o fewn 30 dydd i ddiwedd eich prosiect. Dylai hwn gynnwys unrhyw ddelweddau neu ddeunyddiau priodol eraill a thystiolaeth o wariant gwirioneddol a wnaed ar y prosiect. Lle bo'n briodol, mae'n bosibl caiff adroddiadau eu dangos ar ein gwefan fel esiamplau o arfer da. Gyda'ch caniatâd o flaen llaw, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'r adroddiad gydag eraill sy'n bwriadu gwneud gwaith tebyg mewn maes tebyg neu gysylltiedig. Bydd yr adroddiad diweddu prosiect ar gael i'w gwblhau ar-lein.